**EITEM AR YR AGENDA: 10**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**15$^{fed}$ Hydref 2012**

**Asesiad Drafft o Berfformiad yr Awdurdod yn 2011-12**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Cyflwyno'r asesiad drafft o Berfformiad yr Awdurdod yn 2011-12 er mwyn cael cymeradwyaeth yr Aelodau.

## Y Cefndir

2 Mae'n ofynnol i'r ATAau, erbyn 31 Hydref, gyhoeddi gwybodaeth am berfformiad ynglŷn â phob blwyddyn ariannol yn y flwyddyn yn dilyn yr un y mae'r perfformiad yn ymwneud â hi. Mae hyn yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

## Gwybodaeth

3 Lluniwyd y ddogfen hon i gydymffurfio ag Adran 15 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, i roi cyfrif o weithgarwch a pherfformiad yr Awdurdod yn 2011-12 o fewn un ddogfen.

4 Mae'n darparu asesiad o'r modd y mae'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd gyffredinol i wella, a'i gynnydd mewn perthynas â'r amcanion gwella a osodwyd ganddo ar gyfer y llynedd (2011-12). Mae hefyd yn crynhoi ei waith ar y cyd, a'i berfformiad mewn perthynas â dangosyddion penodol cenedlaethol a lleol a mesurau llwyddiant.

5 Eleni, mae cyhoeddiad yr Awdurdod ym mis Hydref yn canolbwyntio ar y llynedd yn unig (2011-12), sy'n wahanol i'r trefniadau yn y blynyddoedd a fu. Yn y flwyddyn ganlynol, sef 2013-13, bydd y cynllun gwella ar gyfer y dyfodol yn cael ei gyhoeddi toc cyn dechrau'r flwyddyn honno. Mae'r newid hwn yn unol â'r ddeddfwriaeth newydd a ddaeth i rym ym mis Mai 2012.

**Argymhellion**

6 Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r asesiad drafft o Berfformiad yr Awdurdod yn 2011-12 i'w gyhoeddi cyn y dyddiad terfynol statudol sef 31 Hydref 2012.